GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Adroddiad Blynyddol GwE

# 2023-2024

# Gwynedd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GwE
# GWYNEDD 2023-24

**Cyflwyniad**

Mae'r Gwasanaeth Dysgu, trwy'r gwasanaeth rhanbarthol GwE yn adnabod ei ysgolion yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol ynghyd â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae prosesau cadarn ar waith ar gyfer gosod cyfeiriad a dal y gwasanaeth rhanbarthol yn atebol. Mae rôl benodol y gwasanaeth rhanbarthol yn y broses o wella ysgolion yn eglur ac yn glir i'r holl rhanddeiliaid a chânt eu dwyn i gyfrif gan weithdrefnau craffu lleol.

Yn dilyn cais gan yr aelodau yn y cyfarfod craffu diwethaf ym mis Ionawr 2024, cyflwynir Adroddiad Blynyddol llawer mwy cryno ar gyfer 2023-24. Mae cynnwys yr adroddiad yn nodi cynnydd yn erbyn pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella:

- Maes Allweddol 1 – Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 – Gwella Dysgu ac Addysgu
- Maes Allweddol 3 – Cwricwlwm a Darpariaeth
- Maes Allweddol 4 – Cynnydd Dysgwyr a Safonau
- Maes Allweddol 5 – Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n achosi Consyrn

Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf y bydd GwE yn ei darparu ar gyfer y pwyllgor craffu. Ar 31 Ionawr, 2024, cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru. Yn sgil hyn, bydd GwE a'r consortia rhanbarthol eraill yn dod i ben ar Fawrth 31, 2025.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno prif grantiau addysg o dan un pennawd, Grant Addysg Awdurdodau Lleol (GAALl), mae'r grant bellach yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Awdurdodau Lleol/ysgolion, ac nid i'r consortia rhanbarthol, gyda'r gofynion a'r risgiau ynghlwm â'r grant bellach yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol unigol. Mae'r penderfyniadau hwn wedi cael effaith sylweddol ar drefniadau gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru o Ebrill 1af, 2024:

- Mae rôl strategol uwch arweinwyr GwE wedi'i diddymu.
- Mae GwE wedi newid o fod yn 'wasanaeth rhanbarthol ar y cyd' i fod yn wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu yn lleol.
- Cleient yw GwE sydd yn darparu comisiwn gwahaniaethol i'r Awdurdodau Lleol.
- Rhaid i GwE lynu'n ofalus i'r comisiwn a'r nifer dyddiau sydd wedi'u pennu i bob awdurdod lleol ar gyfer gwella ysgolion.
- Bydd y cyfeiriad strategol ar gyfer gwella ysgolion yn cael ei ddarparu gan Bennaeth yr Adran Addysg.

Dylid nodi hefyd fod Cyllideb GwE ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu penderfyniad yr Awdurdodau Lleol i leihau eu cyfraniad craidd o 10%, ac felly gweithredu toriad rhanbarthol o £392k, yn ogystal â'r penderfyniad i beidio ag ychwanegu chwyddiant yn llawn. Gan gymryd amcangyfrif chwyddiant i ystyriaeth ar bob gwariant GwE yn 2024-25, a gan nad ydy grantiau addysg yn cael eu henchwyddo'n flynyddol, golyga hyn doriad mewn termau real o £345k yn ychwanegol i'r cyllid craidd, gan roi cyfanswm o £737k. Mae hyn gyfystyr a thoriad o 18% i'r gyllideb.

## MAES ALLWEDDOL 1 - GWELLA ARWEINYDDIAETH

Mae ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol gadarn ond erys rhai heriau mewn ardaloedd penodol. Hefyd, mae sicrhau dilyniant i swyddi penaethiaid ac uwch arweinwyr yn y sectorau cynradd ac uwchradd, wedi bod, ac yn parhau i fod yn her. Cynigiwyd arlwy cyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, fodd bynnag, ni fu i bob ysgol fanteisio ar yr arlwy honno. Yn ychwanegol, mae trefniadau wedi bod ar waith ble mae arweinwyr yr ysgolion yn cydweithio i gefnogi ei gilydd mewn clystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd. Erys anghysondeb yn ansawdd gweithredu ar draws yr awdurdod ac mae gwaith pellach ei angen i sicrhau bod cynghreiriau a chlystyrau yn cymryd mwy o berchnogaeth am daith wella ei gilydd.

Oherwydd y ffocws ar arweinyddiaeth:

- mae mwyafrif ysgolion yn cymryd camau pwrpasol i gryfhau ymhellach arweinyddiaeth gyda ffocws penodol ar fireinio a gwella prosesau cynllunio gwelliant ar bob lefel. Bu i bron pob pennaeth fynychu gweithdai ar fireinio prosesau gwerthuso a chynllunio strategol ynghyd â derbyn cymorth uniongyrchol drwy eu ymgynghorydd cyswllt.
- mae bron pob ysgol yn blaenoriaethu arweiniad a chymorth i ddatblygu gallu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.
- yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn nifer yr arweinwyr sy'n manteisio ar hyfforddiant a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth - ar lefel arweinwyr canol, uwch arweinwyr a darpar benaethiaid. Eleni, mae 8 athro o Wynedd wedi ennill cymhwyster CPCP.
- mae nifer o ysgolion wedi cryfhau eu systemau ar gyfer dal effaith strategaethau gwella ar safonau a chynnydd disgyblion yn dilyn yr arweiniad a chymorth ymarferol.
- mae llawer o ysgolion wedi cryfhau ymhellach eu prosesau atebolrwydd mewnol ac yn yr ysgolion ble mae tanberfformio wedi dod i'r amlwg maent wedi sicrhau ymyriadau priodol ac amserol i fynd i'r afael gyda'r materion perthnasol.
- mae Cynlluniau Cymorth yn weithredol ym mron pob ysgol a daliwyd effaith y cymorth mewn astudiaethau achos o arferion da i'w rhannu i bob ysgol uwchradd a chlwstwr cynradd.
- mae gan nifer cynyddol o ysgolion uwch arweinwyr sydd wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant ac sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau adolygu cymheiriaid. Mae'r clystyrau sydd wedi ymgymryd â hyn wedi gweld manteision mewn rhannu arferion da a chydweithio er mwyn gwella. Yn yr ysgolion sydd ddim wedi bod yn rhan o'r cynlluniau yma mae'r gweithredu wedi ei gyfyngu yn bennaf i gyfraniadau penaethiaid ac ychydig ohonynt sydd wedi adolygu cymheiriaid ar lefel arweinwyr canol ac athrawon.
- yn dilyn cyflwyno gweithdai, mae gan pob clwstwr cynradd/uwchradd gynlluniau trosglwyddo mewn lle gyda nifer wedi dechrau eu rhoi ar waith yn effeithiol.

## MAES ALLWEDDOL 2 – GWELLA DYSGU AC ADDYSGU

Mae ansawdd yr addysgu'n gyffredinol gadarn ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i wella a chysoni ymhellach ansawdd yr addysgu mewn sawl ysgol.

Oherwydd y ffocws cynyddol ar gefnogaeth ac arweiniad i wella'r addysgu:

- mae sawl ysgol wedi dangos gwelliannau mewn agweddau penodol ar addysgeg. Cafodd hyn ei ddilysu gan yr Ymgynghorwyr Cyswllt oedd wedi ymuno mewn gweithgareddau craffu a theithiau dysgu.
- mae ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gadarn. Mae'r cydweithio effeithiol ar draws clystyrau a chynghreiriau wedi dechrau lleihau yr amrywiaeth oddi fewn ac ar draws ysgolion.
- mae sylw penodol wedi ei roi mewn gweithdai ac arweiniad uniongyrchol i ysgolion unigol ar ddatblygu rhifedd, llythrennedd a sgiliau digidol. Mae gan nifer o ysgolion ymyriadau llythrennedd a rhifedd priodol i roi hwb a chymorth i ddisgyblion sy'n llithro. Mae cymorth ar gyfer datblygu y sgiliau trawsgwricwlaidd wedi arwain at welliannau yn ansawdd y cynllunio, darpariaeth a safonau mewn llawer o ysgolion.

- mae sawl ysgol yn cymryd camau priodol i gryfhau addysgeg drwy fynychu hyfforddiant a rhannu arferion da.
- mae cymorth pwnc penodol sydd wedi'i dargedu i rai ysgolion wedi arwain at wella addysgu ac wedi gwella dyfnder ac ehangder dealltwriaeth.
- mae enghreifftiau cadarn o ysgolion yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed.
- mae angen rhoi sylw pellach i gyflymder a graddfa gwelliannau yn yr addysgu mewn ychydig o ysgolion.

## MAES ALLWEDDOL 3 – CWRICWLWM A DARPARIAETH

Mae pob ysgol yn gweithredu ac yn mireinio eu dulliau yn unol â'r hyn gaiff ei amlinellu yn y ddogfen 'Taith i 2022' (Cwricwlwm i Gymru). Mae cymorth penodol ar waith ar gyfer yr ychydig o ysgolion sydd angen arweiniad pellach.

Fel canlyniad i gydweithio ac ymgysylltu effeithiol:

- mae pob ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion B7 ac 8 yn bodloni'r gofynion statudol i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.
- mae pob ysgol yn rhoi cynlluniau ar waith i ymateb i hanfodion pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- mae pob ysgol yn gweithio i ddatblygu cynnig cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion eu dysgwyr gan gynnwys y rhai mwy abl.
- mae pob ysgol yn cyflwyno ac yn arbrofi hefo agweddau newydd o ofynion y cwricwlwm. Mae hyn wedi ei sbarduno gan amrywiaeth o weithgareddau datblygiad proffesiynol ar lefel leol a sirol.
- mae pob ysgol yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio clwstwr/cynghrair o fewn ac ar draws sectorau er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm ac i rannu'r arferion gorau.
- mae'r ysgolion yn gweithredu i sicrhau tegwch i'w dysgwr, ac yn sicrhau bod ganddynt amgylchedd dysgu cynhwysol i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed.

## MAES ALLWEDDOL 4 – CYNNYDD DYSGWYR A SAFONAU

Mae'r ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at gynnal a chodi safonau ar draws y mwyafrif o ysgolion. Mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach mewn ychydig o ysgolion.

- mae sawl ysgol yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata a gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i arfarnu safonau ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach ond cydnabyddir bod angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach mewn rhai ysgolion er mwyn sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd disgyblion oddi fewn i weithdrefnau arfarnu. Mae taenlenni tracio cynnydd wedi esblygu mewn sawl ysgol i gynnwys dadansoddiad o gynnydd holistaidd dysgwyr. Mae nifer o ysgolion hefyd yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ac yn eu monitro drwy systemau olrhain i fynd i'r afael â thanberfformiad ac amrywiaeth. Mewn rhai ysgolion, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.
- mae llawer o'r ysgolion, ar hyn o bryd, yn gweithio ar fireinio prosesau asesu parhaus er mwyn cynnwys mwy o gyfraniad gan y dysgwyr. Ble nad yw'r prosesau wedi datblygu mor effeithiol, cynigir cefnogaeth i'r ysgolion rheini i fireinio eu prosesau olrhain cynnydd a dal yr effaith.
- mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi blaenoriaethu cydweithio yn eu clystyrau a'u cynghreiriau oddi fewn eu cynlluniau strategol. Ffocws y cydweithio yma oedd adnabod cynnydd yn y medrau ac

o fewn meysydd dysgu a phrofiad er mwyn sicrhau gwell cynllunio i gynnig lefelau priodol o her i'w disgyblion.

- mae safonau pynciol a safonau yn y medrau yn gyffredinol gadarn ar draws y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn gadarn dda mewn sawl ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion mae gwaith mwy dwys yn digwydd i wella'r ddarpariaeth yn y medrau. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd mewn sawl ysgol i dargedu gwelliannau pellach yn y ddarpariaeth a safonau yn y medrau gyda'r grwpiau mwyaf bregus o ddysgwyr.
- mae bron pob ysgol uwchradd yn datblygu cynnig pwrpasol ar gyfer disgyblion CA4 fel bod dilyniant clir i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol.
- mae nifer o ysgolion cynradd wedi targedu gwella llafaredd Cymraeg fel canlyniad i effaith tymor hir, andwyol y pandemig. Yn yr ysgolion sydd yn gweithredu cynllun Ein Llais Ni, er enghraifft, gwelir cynnydd da mewn sgiliau siarad a gwrando ac yn lefel hyder dysgwyr i siarad y Gymraeg.

## <u>MAES ALLWEDDOL 5 – CEFNOGAETH A HER I YSGOLION SY'N ACHOSI CONSYRN</u>

Mae strategaeth ysgolion sy'n achosi consyrn clir ar waith ac mae gan bob ysgol sydd wedi eu hadnabod gynllun cymorth sy'n mynegi'n glir natur a dwyster y cymorth a ddarperir gan GwE a'r Awdurdod.

Mae'r tîm o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy'n gweithredu ar draws yr ysgolion yn meddu ar amrediad eang o brofiad ac arbenigedd pwnc a sector benodol. Mae hyn yn sicrhau bod lefel briodol o her a chefnogaeth yn cael ei thargedu mewn dull amserol. Mae trefn briodol mewn lle i adrodd ar berfformiad a chynnydd ysgolion i'r awdurdod. Drwy gydweithio da rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, mae prosesau a chamau gweithredu effeithiol mewn lle i herio a chefnogi ysgolion ac i adnabod y rhai sy'n achosi consyrn.

Ble mae gweithgarwch dilynol wedi'u hadnabod gan Estyn, gwelwyd cynnydd ar gyflymder priodol.

Hyd at ddiwedd Mawrth 2024, un ysgol yn yr Awdurdod sydd mewn categori statudol gan Estyn. Mae gan yr ysgol gynllun gwella ôl arolygiad mewn lle a gwelir cynnydd amserol yn erbyn yr argymhellion.

## BLAENORIAETHAU GWELLA AR GYFER 2024-25

- Gweithredu i sicrhau gwell gwytnwch a chynhwysedd arweinyddol mewn rhai ardaloedd - ar lefel uwch arweinwyr ac arweinwyr canol.
- Parhau i gefnogi arweinwyr ac athrawon i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cynnydd yn natblygiad y sgiliau trawsgwricwlaidd a'r meysydd dysgu a phrofiad.
- Cydweithio gydag ysgolion i fireinio trefniadau asesu ac i gynllunio'n fwy effeithiol y camau nesaf yn y dysgu.
- Sicrhau gwelliannau yn ansawdd yr addysgu mewn ysgolion penodol.
- Parhau i gefnogi ysgolion uwchradd i ymateb i ofynion y manylebau TGAU newydd.
- Parhau i hyrwyddo ac ysgogi cydweithio a rhwydweithio effeithiol rhwng ysgolion, ar bob lefel, er mwyn sicrhau bod pob sefydliad yn ymateb yn hyderus i ofynion y Fframwaith Gwella Ysgolion.